**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Ken Skates AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd

20 Rhagfyr 2024

Annwyl y ddau ohonoch,

**Cau Porthladd Caergybi dros dro**

Yn sgil y newyddion diweddar y bydd Porthladd Caergybi yn cau tan 15 Ionawr fan leiaf oherwydd difrod gan Storm Darragh, mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn ymwybodol o'r pryder sylweddol y bydd hyn yn ei achosi i fusnesau a'r gymuned leol, yn ogystal â'r anhawster y bydd hyn yn ei greu i'r rhai fydd yn teithio rhwng gogledd Cymru ac Iwerddon dros gyfnod y Nadolig.

Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech roi'r wybodaeth a ganlyn i'r Pwyllgor:

- A allech nodi pa gymorth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau a gweithwyr y bydd cau'r porthladd dros dro'n effeithio arnynt, ac a ydych wedi cael trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch dull gweithredu ar y cyd i gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt.

- A fyddech cystal â dweud wrthym hefyd sut yr ydych yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r porthladd i allu ailagor cyn gynted ag y bo'n ddiogel gwneud hynny. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru ac eraill i fuddsoddi yn y porthladd i gefnogi ei adferiad, ac i leihau'r risg y bydd rhywbeth tebyg yn digwydd yn y dyfodol.

Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw newid i'r dyddiad disgwyliedig ar gyfer ailagor y porthladd.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

We welcome correspondence in Welsh or English

Copi at: Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith